CYNGOR BRO MORGANNWG

CYMUNEDAU CRYF Â DYFODOL DISGLAIR



# CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL 2024-2025



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL YN SAESNEG.
THIS DOCUMENT IS AVAILABLE IN ENGLISH.

## EIN HAMCANION

### GWEITHIO GYDA, A THROS EIN CYMUNEDAU

Gweithio gyda'r gymuned a chynnig cyfleoedd i'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o siapio ein gweithgareddau. Gwella ein cyfleoedd ar-lein tra'n parhau i ddarparu ffyrdd amrywiol o ymgysylltu â'r Cyngor. Gwneud defnydd effeithlon o'n hasedau a newid sut rydyn ni'n gweithio.

### ATEGU DYSGU, CYFLOGAETH A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY

Sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol drwy ddarparu buddsoddiad a gweithio gyda'n partneriaid. Trwy weithio mewn partneriaeth byddwn yn hyrwyddo twf economaidd ac yn adfywio ein cymunedau, gan gynnwys canol trefi.

### CYNORTHWYO POBL GARTREF AC YN EU CYMUNED

Cydlynu ymateb i'r argyfwng costau byw drwy waith gydag ysgolion, mentrau cymunedol a chynlluniau cyllido. Bydd gwaith partneriaeth yn mynd i'r afael ag annhegwch iechyd a byddwn yn cefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed.

### PARCHU, GWELLA A MWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD

Gweithredu Prosiect Sero a gweithio gyda'n partneriaid i amddiffyn yr amgylchedd, cynyddu ailgylchu, annog teithio llesol, a darparu cartrefi sydd bron yn ddi-garbon.

## EIN HERIAU ALLWEDDOL

### GWYDNWCH SEFYDLIADOL (ein pobl, ein cyllid, ein hasedau ac ymgysylltu â'r cyhoedd)

Gwrando ar yr hyn ddywed ein trigolion wrthym ac addasu ein gwasanaethau a sut y cânt eu darparu mewn ymateb i flaenoriaethau lleol, pwysau ariannol a heriau'r gweithlu.

### ARGYFWNG COSTAU BYW

Cefnogi ein trigolion, sefydliadau a busnesau lleol yn wyneb costau cynyddol yn enwedig o ran ynni, bwyd a thai.

### ARGYFYNGAU HINSAWDD A NATUR

Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur a chyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Her Hinsawdd.

### DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae'r ffyrdd canlynol o weithio yn rhan annatod o gyflwyno'r CCB:

- Cydweithredu
- Atal
- Cyfranogiad
- Integreiddio
- Hirdymor